

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Sylfaen

Gweithgaredd 9: Sut ydyn ni'n delio â chwsmeriaid?

Amcan dysgu

Datblygu sgiliau wrth werthu eu cynnyrch neu wasanaeth.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd

- Hunan-hyder

Cysylltiadau

- Cyfathrebu
- Gweithio gyda phobl eraill
- Negodi, perswadio a dylanwadu

Gweithgareddau dysgu

Trafodwch gyda'r disgyblion bwysigrwydd gwerthu cynnyrch/gwasanaeth.

Anogwch ddisgyblion i feddwl am y cwestiynau bydden nhw'n eu gofyn os nhw oedd y cwsmer e.e. "Faint mae'n costio?" "Sut mae'n gweithio?"

Gan ddefnyddio chwarae rôl, gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn paru i chwarae "siop" ac ymarfer sut fydden nhw'n siarad â chwsmer ac yn gweini cwmser.

Cyflwynwch mewn termau syml y syniad o gyllid. Trafodwch gyda'r disgyblion beth mae angen iddyn nhw ei gofnodi a sut fyddan nhw'n cofnodi cyllid eu prosiect e.e.

- Faint o gynhyrchion ydyn ni wedi eu gwneud?
- Faint mae pob cynnyrch yn ei gostio i'w wneud?
- Faint fyddwn ni'n ei godi am bob cynnyrch?

Mae'r disgyblion yn dylunio ac yn gwneud dalenni/hysbysiadau pris ac yn penderfynu ar drefniant eu stondin ac ati.

Gweithgaredd 9: Sut ydyn ni'n delio â chwsmeriaid?

Cyfnod Sylfaen

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu cyflawni tasg syml mewn cydweithrediad ag eraill a gwneud cyfraniadau positif.



Adnoddau mae eu hangen

- TGCh

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant

Datblygiad Mathemategol

Deall a defnyddio arian:

- Datblygu ymwybyddiaeth o ddefnydd arian a'i werth, drwy chwarae rôl i ddechrau;
- Adnabod, didoli a defnyddio darnau arian; dod o hyd i gyfansymiau, a rhoi newid.



2. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

- Cydweithredu a thrafod.

Rhifedd – Defnyddio sgiliau rhif

Rheoli arian e.e.

- Defnyddio cyfuniadau gwahanol o arian i dalu am eitemau hyd at £1;
- Dod o hyd i gyfansymiau a rhoi newid o luosrifau o 10c.

